**ATODIAD 1**

## Adroddiadau Archwilio Allanol 2014

1. Adroddiad Gwella Blynyddol y Swyddfa Archwilio

   Ym mis Mai 2014 cyflwynwyd Adroddiad Gwella Blynyddol y Cyngor gan Swyddfa Archwilio Cymru i Aelodau'r Cabinet, Penaethiaid a'r Aelodau Craffu.

   Yr oedd yr Adroddiad yn un teg a phositif. Nid oedd yn cynnwys cynnig nac argymhelliad gwelliant newydd.

2. Gwerthusiad Perfformiad Blynyddol yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ar gyfer 2013-2014

   Cynhelir adolygiad a gwerthusiad o berfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd yn flynyddol gan yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Mae'r adroddiad adolygiad yn deillio o'r gwaith arolygu gan nodi'r meysydd sydd wedi gwella a meysydd i'w gwella yn Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd am y flwyddyn dan sylw.

   Mae'r adroddiad wedi ei gylchredeg i Swyddogion perthnasol a'r Aelodau perthnasol. Cyflwynwyd yr adroddiad i Bwyllgor Craffu Gwasanaethau ar 11 Rhagfyr 2014 gan Marc Roberts a Vicky Poole, Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

   Bwriedir cyflwyno'r adroddiad i'r Cabinet ffurfiol ym mis Chwefror 2015.

3. Adroddiad: Trefniadau Diogelu Plant Awdurdodau Lleol - Cyngor Gwynedd

   Archwiliwyd Trefniadau Diogelu Plant Awdurdodau Lleol Cyngor Gwynedd gan Swyddfa Archwilio Cymru a chyhoeddwyd adroddiad ym mis Hydref 2014.

   Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau gyda chynllun gweithredu er ymateb i'r cynigion isod.

   C1 – Adolygu'r gofynion o dan Ddeddf Plant 2004 ar gyfer Swyddog Amddiffyn Plant Dynodedig Awdurdodau Lleol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio'n llawn â'r ddeddfwriaeth.
   C2 – Sicrhau bod risgiau diogelu, a'r camau i'w lliniaru, wedi'u diweddaru yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

C3 - Gwella'r craffu ar elfennau allweddol trefniadau diogelu'r Cyngor, drwy, er enghraifft, adrodd yn rheolaidd am berfformiad ynglŷn â recriwtio diogel; presenoldeb mewn hyfforddiant diogelu a'i effaith; a chanlyniad y rhaglen archwilio ysgolion flynyddol.
C4 - Cytuno ar raglen waith archwilio fewnol reolaidd i adolygu trefniadau diogelu'r Cyngor.
C5 – Darparu hyfforddiant i'r staff i gyd ar Bolisi Chwythu Chwiban y Cyngor.

4. Arolygiad ESTYN 11 – 15 Mawrth 2013

Yn dilyn arolygiad Estyn o wasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc ar 11 - 15 Mawrth 2013, barnwyd bod angen monitro cynnydd yr awdurdod gan Estyn.

Derbyniwyd a chadarnhawyd Cynllun Gweithredu Ôl-Arolwg Estyn gan y Cabinet ar 17 Medi 2013.

Cytunwyd ar raglen o ymweliadau monitro drwy ein harolygwyr cyswllt, ac fe gynhaliwyd y cyntaf o'r ymweliadau ar 12 a 13 o Fawrth 2014. Bu i dîm o ddau arolygwr arfarnu cynnydd a wnaed gan yr awdurdod yn erbyn un argymhelliad yn deillio o'r arolygiad er mwyn ystyried perfformiad presennol yr awdurdod ac i adnabod unrhyw anghenion gwella pellach. Nid oedd y llythyr a dderbyniwyd yn dilyn yr ymweliad hwn (Mai 2014) yn cynnwys cynnig gwella pellach.

Bu ymweliad arall ar 23 -25 Mehefin 2014 gyda thîm o ddau arolygwr yn arfarnu'r cynnydd yn erbyn tri argymhelliad yn deillio o'r arolygiad. Nid oedd y llythyr dilynol yn cynnwys cynnig gwella pellach.

Bu ymweliad arall gan Estyn rhwng 2 – 5 Rhagfyr a disgwylir llythyr.

Ystyriwyd Cynllun Gweithredu Ôl-Arolwg Estyn gan y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ar 3 Hydref 2013. Mae Arolygwyr Estyn hefyd wedi gofyn am fynychu cyfarfod Pwyllgor Craffu Gwasanaethau 12 Chwefror 2015 er mwyn adrodd yn ôl ar ganfyddiadau eu hymweliad fis Rhagfyr.